

POLISI MWY ABL A THALENTOG

CLWSTWR GLANTAF, CAERDYDD



Ysgol Glan Morfa



Ysgol Mynydd
Bychan



POLISI DRAFFT MWY ABL A THALENTOG

Cyflwyniad

Credwn mewn darparu'r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer disgyblion o bob gallu. Rydym yn cynllunio'r addysgu a'r dysgu fel bod pob plentyn yn gallu anelu at y lefel uchaf sy'n bosib o gyrhaeddiad personol. Pwrpas y polisi hwn yw helpu i sicrhau ein bod yn cydnabod a chefnogi gofynion y disgyblion hynny yn ein hysgol sydd wedi'u hadnabod fel rhai 'abl' a/neu 'dalentog' yn ôl y canllawiau cenedlaethol.

Diffiniadau

Estyn – (Medi 2013) – ‘Nid oes diffiniad safonol y mae pawb yn cytuno arno ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cydnabod yn gyffredinol yn fwy dawnus.’

Yn y canllawiau cenedlaethol, mae'r termau yn cael eu diffinio fel isod:

- 'abl' – sef plentyn sydd ag ystod eang o gyraeddiadau ar lefel uwch na'r cyffredin, fel arfer mewn mwy nag un pwnc ond gall gyrraedd lefelau dipyn uwch na'r cyffredin mewn ystod eang o bynciau ond yn nodweddiadol yn y pynciau academiaidd; mae angen cyfleoedd cyfoethogi ac estyn arnynt sydd y tu hwnt i'r rhai a ddarperir fel arfer ar gyfer y garfan gyffredinol o ddisgyblion.
- 'talentog' – sef plentyn sy'n rhagori mewn o leiaf un maes penodol. Yn aml iawn byddant yn rhagori yn y meysydd sy'n gofyn am sgil perfformio, fel chwaraeon neu gerddoriaeth, ond efallai na fyddant yn dangos gallu uchel ar draws yr holl feysydd dysgu.

Yn gyffredinol yng Nghymru, gall tua 20% o boblogaeth ysgol fod yn fwy abl tra gellir ystyried y 2% uchaf yn eithriadol. Mae'n bosib bod gallu uchel a thalentau yn datblygu a dirywio dros amser. Bydd rhai dysgwyr yn fwy galluog a thalentog mewn cyfnod penodol yn ystod eu datblygiad ac efallai na fydd hyn yn barhaol.

Er ein bod yn cydnabod ac yn darparu at gyfer y math hwn o ddisgyblion yn ein hysgolion, ar yr un pryd rydyn ni'n cydnabod hawl pob plentyn o bob gallu i gael gafael ar gyfleoedd dysgu, er mwyn eu hunanfoddhad nhw, ac er mwyn eu datblygu yn oedolion gweithgar a chyfrifol. Bydd ein disgyblion Mwy Abl a Thalentog yn derbyn eu haddysg o fewn y dosbarth arferol, ond weithiau byddwn yn cynnig gweithgareddau sy'n cyfoethogi ac ymestyn eu profiadau er mwyn ehangu eu sgiliau a'u talentau'n bellach fyth.

Gweler Atodiad 1 – Mwy o fanylion ar ddiffiniad Clwstwr Glantaf

Nodau ac amcanion

- Sicrhau ein bod yn cydnabod ac yn chefnogi anghenion pob disgybl;
- Galluogi disgyblion i ddatblygu i'w llawn potensial;

- Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion i ddysgu o ran eu hunain;
- Sicrhau ein bod yn cyflwyno gwaith sy'n rhoi sialens ac yn ymestyn y disgyblion;
- Annog disgyblion i feddwl ac i weithio yn annibynnol.

Sut i adnabod disgyblion abl a thalentog ?

Defnyddiwn amrywiaeth o strategaethau i adnabod disgyblion abl a thalentog. Mae'r broses yn mynd ymlaen yn barhaol, ac yn dechrau pan fydd disgybl yn ymuno â'r ysgol.

Cynradd

- Bydd gwybodaeth cyn-ysgol yn sôn am ddiddordebau a llwyddiannau disgybl mewn meysydd arbennig. Wrth drafod gyda rhieni a gofalwyr fe allwn ni gael manylion pellach i'w hychwanegu at y darlun.
- Bydd disgyblion yn cael profion gwaelodlin o fewn yr hanner tymor cyntaf yn y dosbarth Derbyn a'r Feithrin??
- Defnyddir data gwaelodlin i ddynodi tua 20% o ddisgyblion ym mhob blwyddyn sydd â'r gallu academaidd gorau mewn Iaith a/neu Rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen a Chymraeg, Saesneg a/neu fathemateg yn Cyfnod Allweddol 2. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i ni o'u sgiliau a'u gallu ar draws sawl maes dysgu ????????
- Bydd athrawon yn gwneud asesiadau o ddatblygiad pob disgybl ym mhob pwnc o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn y meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Rydyn ni'n cymharu'r wybodaeth gydag ystod o ddata cenedlaethol a sirol, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gwneud cynnydd digonol.

Uwchradd

- Gwybodaeth gan yr ysgolion cynradd am allu a thalentau disgyblion.
- Bydd athrawon yn gwneud asesiadau o ddatblygiad pob disgybl ym mhob pwnc o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn CA3 ac ymhob pwnc gorfodol a dewisol yn CA4 a CA5. Rydyn ni'n cymharu'r wybodaeth gydag ystod o ddata cenedlaethol a sirol, er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd digonol.
- Data – NFER CA2 a CA3, Profion Darllen a Rhifedd cenedlaethol, , Lefelau CA3 mewnol, canlyniadau TGAU ac UG/A2, Targedau FFTAspire.
- Rhestr cyfeirio pwnc benodol.
- Barn broffesiynol staff.
- Sylwadau anffurfiol gan rieni ac arbenigwyr allanol.
- Yng Nglantaf, disgwylir i **bob adran** fod â chofrestr MATH a gyfer pob blwyddyn, ynghyd â Meini Prawf swyddogol ar gyfer adnabod y disgyblion hynny, a rhstr o strategaethau adrannol sy'n nodi sut mae'r adran yn ymestyn y disgyblion hyn.

Cynradd ac Uwchradd

- asesiadau allanol (ee. Profion Cenedlaethol, TGAU, UG, Safon A)
- asesiadau mewnol

- enwebu gan yr athro/athrawes ar sail asesu parhaol (ee. cyrhaeddiad yn erbyn disgwyliadau'r FfLIRh)
- enwebu gan yr ysgol flaenorol (lle bod disgybl yn trosglwyddo)
- enwebu gan rieni
- enwebu gan asiantaethau allanol (ee. clybiau chwaraeon)
- hunan-enwebu gan y disgybl neu enwebu cyf-oed
- Wrth i'r disgyblion fynd trwy'r ysgol fe'u hasesir yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd disgwylidig yn ôl eu targedau personol. Mae pob athro/athrawes yn edrych ar gynnydd y disgyblion yn rheolaidd ac yn cadw cofnod o hyn ar system tracio'r ysgol. Mae athrawon yn trafod cynnydd disgyblion gyda rhieni a gwarchodwyr yn y nosweithiau rhieni tymhorol ac yn gwneud adroddiad ar gynnydd disgyblion bob blwyddyn ym mis Gorffennaf??

Mae'r penderfyniad terfynol i gofrestru disgybl yn sefyll gyda'r Cydlynnydd MATH a Phennaeth yr Ysgol.

Gweler Atodiad 2 : Rhestr Wirio gyffredinol er mwyn adnabod disgybl mwy abl neu dalentog

Gweler Atodiad 3: Meini Prawf Disgyblion MATH a HAD Ysgol Pencae

Darpariaeth ar gyfer disgyblion MATH

Dylai fod gan bob ysgol Gydlynnydd Disgyblion Mwy Abl a Thalentog. Disgwylir i bob aelod o'r staff fod yn ymrwymedig i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Thalentog ac yn bwysicach na dim, mae'n rhaid i'r holl staff addysgu gefnogi ei gilydd ac yn eu tro, dderbyn cefnogaeth y UDRh.

Yn gyffredinol, bydd disgyblion MATH yn dilyn yr un cwricwlwm â'u cyfoedion er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo fel aelodau cyflawn o gymuned yr ysgol. Gwahaniaethir ar eu cyfer trwy osod gweithgareddau mwy heriol, trosglwyddo cyfrifoldeb am y dasg i'r disgybl (ee. gosod meini prawf eu hunain, rhoi llai o gymorth wrth gynllunio, ayb.) a thrwy ddisgwyliadau uwch. Anelir at gynllunio gweithgareddau all-gwricwlaidd addas ar eu cyfer.

Rôl yr Athro dosbarth / pwnc

Mae'r athro/athrawes ddosbarth/pwnc yn gyfrifol am:

- osod a chadw disgwyliadau uchel o gyrhaeddiad disgyblion a meithrin ethos cadarnhaol tuag at lwyddiant.
- adeiladu ar yr hyn sy'n hysbys ac osgoi ailadrodd diangen
- datblygu sgiliau dysgu annibynnol, yn enwedig ymchwil, cwestiynu a sgiliau meddwl
- darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol a dulliau dysgu unigol

- caniatáu manau cychwyn gwahanol
- gosod tasgau penagored
- gofyn cwestiynau agored
- annog gwaith dychmygus a chreadigol
- caniatáu amser i fynd i'r afael â thasgau estynedig neu ddiddordebau unigol
- amrywio trefniadau grwpio: gweithio mewn grwpiau o'r un gallu a grwpiau cymysg.
- annog dysgwyr i esbonio sut maent wedi dysgu rhywbeth.
- sicrhau nad yw disgyblion yn gwastraffu amser wrth ailadrodd gwaith a osodwyd mewn gwrs flaenorol.
- sicrhau ein bod yn gosod gwaith o safon uchel a bod y disgyblion yn deall beth yw'r disgwyliadau o ran y gwaith.
- wahaniaethu gwaith ar gyfer unigolion.
- osod targedau unigol priodol.
- ddarparu gwaith cartref priodol.
- ddathlu llwyddiant tra'n cynnal disgwyliadau uchel ar yr un pryd.
- ddarparu gweithgareddau cyfoethogi ac ymestynnol y tu hwnt i raglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- werthfawrogi a gwobrwyo ansawdd
- ddarparu cyfleoedd i brofi ystod o ymweliadau addysgol sy'n cyfoethogi y dysgu a'r addysgu
- ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh) tan CA3 i sicrhau bod gwaith yn briodol heriol.
- ddarparu cyfleoedd dysgu diddorol a heriol yn unol â chynllun dysgu unigol y disgybl. Dylai'r profiadau dysgu rhoi cyfle i ddisgyblion mwy abl a thalentog ddatblygu eu sgiliau meddwl a dysgu annibynnol yn ogystal â'u dawn arbennig.
- gynnwys disgyblion mewn gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu sy'n rhoi arweiniad clir ar 'gamau nesaf' ac yn rhoi cyfle i'r disgyblion fyfyrir ar eu perfformiad a gosod targedau'u hunan.
- gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion gweithio mewn grwpiau gallu cymysg a grwpiau o allu tebyg er mwyn cael profiadau dysgu amrywiol. Beth bynnag yw natur y grŵp, bydd disgwyliadau ar gyfer y disgyblion yn briodol heriol wrth ystyried eu gallu unigol.
- rannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion i'w rhieni trwy weithdrefnau arferol yr ysgol, ee. nosweithiau rhieni a'r adroddiad diwedd blwyddyn.
- gofnodi gwahaniaethu yn eu cynllunio yn unol â pholisi cynllunio'r ysgol.
- rannu gwybodaeth am y gofrestr MATH gyda chynorthwyr dosbarth, gan gynnwys pwy sydd ar y cofrestr, pam a beth yw eu targedau.
- gyd-weithio a rhannu gwybodaeth gyda'r Cyd-lynydd MATH a rhoi mewnbwn i gynlluniau dysgu unigol.
- fonitro effeithiolrwydd eu gwaith eu hunan a bod yn ymwybodol o wybodaeth newydd yn y maes.

Rôl y Cydlynnydd MATH

- sicrhau bod cofrestr o ddisgyblion MATH yn cael ei chreu a'i diweddarau yn flynyddol.
- sicrhau bod y staff priodol yn ymwybodol o'r gofrestr

- monitro cynllunio athrawon er mwyn sicrhau bod tasgau priodol yn cael eu gosod ar draws holl ardaloedd y cwricwlwm ar gyfer plant abl a thalentog;
- cefnogi staff wrth iddynt geisio adnabod plant abl a thalentog;
- darganfod/darparu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr ysgol, athrawon a staff cefnogi er mwyn eu cynorthwyo a'u galluogi i ddiwallu anghenion disgyblion MATH
- cydweithio gyda'r athro dosbarth i lunio targedau a strategaethau ar gyfer diwallu anghenion disgyblion Mwy Abl a Thalentog .
- Defnyddio data i dracio cynnydd disgyblion MATH.
- Cydlynu gyda NACE a rhaeadru gwybodaeth berthnasol gydag aelodau'r staff.
- cysylltu gyda rhieni, llywodraethwyr a swyddogion AALL ar faterion perthnasol
- gwella dealltwriaeth rhieni o sut y gallent gefnogi addysg eu plentyn e.e trwy wefannau priodol.

Rôl y Pennaeth/Uwch Dîm Rheoli /Tîm Arwain

- cynllunio a rheoli'n effeithiol ymagwedd tuag ar ragoriaeth drefniadol h.y. sicrhau bod amcanion dynodedig yn cael eu cyrraedd yn erbyn paramedrau cytunedig ar ansawdd, amserlen a chost. Dylai'r amcanion hyn fynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn a'r ysgol drwy osod a chyflawni targedau penodol yng nghynllun datblygu'r ysgol.
- dyrannu cyfran o'r gyllideb i addysgu a dysgu disgyblion Mwy Abl a Thalentog.
- cynorthwyo i fapio ac archwilio sgiliau a rolau yn yr ysgol ac yna i ddarparu HMS priodol i staff a monitro perfformiad.
- adolygu'r cwricwlwm yn flynyddol fel ei fod yn cadw parhad, datblygiad, ehangder a chymbwysedd.
- bod â rôl yn strategol mewn hyrwyddo cydweithrediad a chydweithio rhwng adrannau ac ar draws y cwricwlwm cyfan o ran disgyblion Mwy Abl a Thalentog.
- sicrhau bod disgyblion abl a thalentog yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd Staff/Gwella Ysgol a bod arfer gorau a phrofiadau yn cael eu rhannu ymhlith staff.
- Sicrhau bod polisi ysgol gyfan o wobrau a chydnybuddiaeth am waith a/neu gynnydd ar waith

Rôl y Llywodraethwyr

- sicrhau bod ffocws ar y disgyblion Mwy Abl a Thalentog yn yr ysgol.
- bod â throsolwg a chyfrifoldeb am ddarparu ar gyfer disgyblion Mwy Abl a Thalentog o fewn yr ysgol ac i sicrhau adnoddau digonol.
- mynychu hyfforddiant ar addysg disgyblion Mwy Abl a Thalentog.

Rôl y Rhieni / Gwarchodwyr

- cynghori a rhannu syniadau/strategaethau gyda'r rhieni fel eu bod yn gallu cefnogi addysg y disgybl yn fwy effeithiol
- sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y rhieni â'r athro er mwyn rhannu gwybodaeth am dalentau neu ddiddordebau arbennig y disgybl.
- Rhoddir cyfle i athrawon pynciol drafod gallu a photensial y disgyblion mewn nosweithau rhieni. Bydd rhieni hefyd yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plentyn

drwy gyfrwng adroddiadau interim a llawn.

Sut mae rhieni yn gallu cefnogi eu plentyn?

- neilltuo amser bob dydd i drafod gyda'ch plentyn.
- cynorthwyo eich plentyn gyda hunan-drefn a rheoli amser trwy wneud defnydd effeithiol o ddyddiadur eich plentyn.
- annog eich plentyn i roi cynnig ar weithgareddau newydd trwy ymuno â'r lluo o weithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu cynnig gan yr ysgol/y gymdeithas.
- cyfoethogi profiadau eich plentyn trwy annog ymweliadau e.e. orielau celf, amgueddfeydd, canolfannau chwaraeon.
- sbarduno diddordeb trwy annog eich plentyn i ddefnyddio adnoddau yn y cartref e.e. y rhyngwrwd, llyfrau, mapiau, gwyllo rhaglenni/ffilmiau.
- rhoi cyfle i'ch plentyn gyfarfod â phlant sy'n rhannu'r un diddordebau e.e. trwy ymaelodi â chlybiau a chymdeithasau lleol.
- annog eich plentyn, os daw'r cyfle, i fynychu gweithdai, dosbarthiadau meistr a darlithoedd prifysgol.

Trosglwyddo a Phontio

Mae angen pontio effeithiol rhwng y gwahanol gyfnodau dysgu :

- systemau cyfathrebu effeithiol.
- cynnal cyfarfodydd pontio i drosglwyddo gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â lefelau cyrhaeddiad a photensial y dysgwyr Mwy Abl a Thalentog maent yn mynd i'w haddysgu; gwaith sydd eisoes wedi ei wneud; gwaith y mae angen ei gynllunio ar ei gyfer; hoff ddulliau dysgu; dulliau dysgu aflwyddiannus; cryfderau a gwendidau unigolion penodol; unrhyw ddyfeisgarwch a menter maent wedi arddangos a thargedau ar gyfer datblygiad pellach.
- Wrth drosglwyddo i Lantaf, dylid trosglwyddo gwybodaeth benodol am anghenion dysgwyr, gan gynnwys MATH .

Sut mae cael mwy o wybodaeth?

Gallwch wella ar eich gwybodaeth a dealltwriaeth am y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yng Nghymru trwy ymweld â rhai o'r gwefannau yma.

<http://www.nace.co.uk/> - y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg ac mae ardal NACE Cymru ar y wefan sy'n esbonio'r ddarpariaeth yng Nghymru.

Gwybodaeth ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090915curriculumopportunitycy.pdf>

<http://new.wales.gov.uk/publications/circular/2008/meetingthechallenge/?lang=cy>

<http://www.nagcbrtain.org.uk/> - cyngor defnyddiol i rieni a gwybodaeth am rwydweithiau cenedlaethol sy'n benodol ar gyfer Lloegr.

<http://www.aquila.co.uk/> - cylchgrawn hwyliog ar gyfer disgyblion 8-13 oed.

<http://www.mensa.org.uk/>

<http://www.tomorrowsachievers.co.uk/> - arbenigwyr sy'n cynnig dosbarthiadau meistr yn Lloegr.

Monitro ac adolygu'r polisi

Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro trwy gydol y flwyddyn gan y Cydlynnydd MATH, drwy drafodaethau gyda staff, disgyblion a rhieni. Bydd y polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Cydlynnydd MATH, UDRh a'r aelod enwebedig o'r corff llywodraethol sy'n gyfrifol am MATH, a bydd yn cael ei ddiweddarau mewn ymateb i unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r ALI. Bydd y Rhestr / Record a darpariaeth yn cael ei adolygu gan athrawon dosbarth gyda'r cydlynnydd MAT. Bydd pob rhiant yn derbyn gwybodaeth am gynnydd eu plant drwy gyfarfodydd rhieni.

Atodiad 1 :

Diffiniad Penodol y Clwstwr (ar sail data Glantaf)

Un o'r prif ddangosyddion a ystyrir gan ESTYN erbyn hyn yw'r canran A*- A TGAU. Dyma ganlyniadau A*-A Ysgol Glantaf am y tair blynedd diwethaf :

Canlyniadau Crai a Chymharol

	2014	2015	2016	2017
Ysgol	35%	33%	36%	46%
Cenedlaethol		17%	16%	17%
AAI		20%	20%	22%
Teulu		20%	23%	23%

Gwerth Ychwanegol

FFT	2014	2015	2016	2017
Cynnydd	+13%	+14%	+21%	

Gweler felly bod rhwng 30-40% o ddisgyblion Glantaf yn derbyn graddau A*- A yn TGAU ac felly gall hyn fod yn arwydd i ni o'r canran Abl yn y clwstwr. Mae'n amlwg fod canran Glantaf dipyn yn uwch na'r cenedlaethol ac felly mae'n rhesymol i feddwl bod canran uwch na'r 20% arferol a nodir gan ESTYN yn ddisgyblion y gellir eu hystyried yn Abl oddi mewn i'r clwstwr. Dylai'r ysgolion yn y clwstwr ystyried hyn felly wrth ddarparu strategaethau.

Yng Nglantaf, rydym yn setio yn y pyniau craidd yn CA4 ac yn y pyniau craidd a rhai pyniau sylfaen yn CA3 ac felly, gallwn yn hawdd nodi'r disgyblion yn y 2-3 set uchaf fel rhai abl ac felly ddefnyddio'r strategaethau addysgu a dysgu Abl a Thalentog ar eu cyfer.

O ran y disgyblion eithriadol, mae'n dibynnu o bwnc i bwnc (gweler canlyniadau A* adrannol) ond gallwn ddweud bod y disgyblion hynny sy'n derbyn llawer o raddau A* yn TGAU yn rhai eithriadol e.e.

	2014	2015	2016	2017
8 A*	8%	11%	7%	10%
7 A*	9%	12%	10%	12%
6 A*	13%	14%	12%	13%

Golyga hyn felly bod hyd at 10% o'n disgyblion yn medru cael eu galw'n eithriadol. Y syniad gorau yw i ysgolion gwahanol / adrannau yng Nglantaf greu eu meini prawf eu hunain ar gyfer adnabod disgyblion eithriadol. (Gweler enghreifftiau o daflenni adrannol Meini Prawf Glantaf fel Atodiad 3)

Atodiad 2 :

Rhestr Wirio gyffredinol er mwyn adnabod disgybl mwy abl neu dalentog

- Yn meddu ar allu rhagorol i resymu, i ddelio gyda'r haniaethol, i gyffredinol o ffeithiau penodol, i ddeall ystyr a dirnad perthynas.
- Gwreiddioldeb a blaengaredd mewn gwaith ymenyddol ac ymarferol.
- Yn gallu dirnad, storio, dadansoddi a threfnu gwybodaeth yn gyflym, er mwyn datblygu dadleuon deallus a chymhleth.
- Fel arfer yn meddu ar safonau personol uchel; yn mynd yn rhwystredig os nad ydynt yn gallu cyflawni i'r safon y maent yn ei ddisgwyl ohonynt eu hunain; yn berffeithwyr, a ddim yn fodlon ar glod pobl eraill yn unig.
- Byddant yn ymgolli am gyfnod hir mewn rhywbeth sydd o ddiddordeb iddynt, a gallant fod yn fyr eu hamynedd pan fydd rhywun yn torri ar eu traws.
- Bydd ailadrodd sgiliau y maent eisoes yn gallu ei gyflawni yn achosi diflastod mawr iddynt.
- Yn dangos chwilfrydedd eithriadol ac yn gofyn llawer iawn o gwestiynau deallus.
- Yn dangos diddordeb mawr yng nghwestiynau mawr bywyd - dynoliaeth a'r bydysawd.
- Yn dangos gallu i arwain ac i ddylanwadu ar eraill – mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol.
- Yn gallu rhagweld pendraw stori neu sefyllfa cyn y mwyafrif o blant eraill.
- Yn dilyn pwnc neu bynciau i ddyfnder mawr.
- Yn amharod i ddilyn cyfarwyddiadau ar gyfer tasgau yn y dosbarth - yn well ganddynt ddilyn eu trywydd eu hunain.

(Shore in Montgomery, 1996 and Freeman 1991, reproduced by Barry Teare in 'Effective Provision for Able and Talented children')

Gallu mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg

Dywedir bod plentyn yn abl mewn Cymraeg/Saesneg pan fyddant:

- yn dangos eu bod yn rhugl iawn ac yn gallu cynnal sgwrs sydd y tu hwnt o wreiddiol;
- defnyddio sgiliau ymchwilio yn fwy effeithiol er mwyn casglu gwybodaeth;
- yn mwynhau darllen, ac yn ymateb i ystod eang o ddeunyddiau i lefel uwch na'r cyffredin;
- yn defnyddio geirfa arbennig o eang, ac yn mwynhau trin geiriau;

- yn gweld pynciau o bersbectif mwy eang;
- yn defnyddio sgiliau uwch wrth gymryd rhan mewn trafodaethau.

Dywedir bod plentyn yn abl mewn Mathemateg pan fyddant:

- yn archwilio i ystod eang o strategaethau wrth geisio datrys problemau;
- yn fwy chwilfrydig wrth weithio gyda rhifau ac yn archwilio i broblemau;
- yn rhagweld y ffordd o ateb problem, heb orfod ceisio'r holl opsiynau gwahanol;
- yn edrych y tu hwnt i'r cwestiwn er mwyn damcaniaethau ac esbonio;
- yn gweithio'n fwy hyblyg, ac yn datblygu strategaethau eu hunain;
- yn mwynhau trin rhifau.

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein staff a rhieni, rydym yn sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd y nôd yn ôl ei allu a'i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliaeth ac arweiniad o fewn cymdeithas eangfrydig, bositif a diogel.

Atodiad 3:



Meini Prawf Disgyblion sy'n ddisgyblion MAD

Er mwyn adnabod disgyblion Mwy Abl a Dawnus (MAD) a Hynod Abl a Dawnus (HAD) Ysgol Pencae rydym yn defnyddio y meini prawf isod.

MAD (20%)	HAD (2%)
Sgôr safonedig 120+ yn y profion mewnol / profion cendlaethol	Sgôr safonedig 130+ yn y profion mewnol / profion cendlaethol
Asesiadau Ffurfiannol Incerts yn uwch na'u disgwyliadau oed DD – Deilliant 4c+ BI1 – Deilliant 4a+ BI2 – Deilliant 5c+ BI3 – Lefel 3b+ (D6) BI4 – Lefel 3a+ BI5 – Lefel 4c+ BI6 – Lefel 5c+ Bydd eu cynnydd nhw yn gyson uwch na'r cyfartaledd.	Asesiadau Ffurfiannol Incerts yn uwch na'u disgwyliadau oed DD – Deilliant 4a+ BI1 – Deilliant 5c+ BI2 – Deilliant 5a+ BI3 – Lefel 3a+ (D6) BI4 – Lefel 4c+ BI5 – Lefel 4b+ BI6 – Lefel 5b+ Bydd eu cynnydd nhw yn gyson uwch na'r cyfartaledd.
**Asesu Saesneg BI3 yn nhymer y Gwanwyn R.Readers 9.0+	**Asesu Saesneg BI3 yn nhymer y Gwanwyn R.Readers 9.9+
Enwebiadau gan yr athrawon	Enwebiadau gan yr athrawon
Trafod gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid yr ysgol	Trafod gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid yr ysgol
Cysylltiadau â'r rheini – holiaduron talentau disgyblion	Cysylltiadau â'r rheini – holiaduron talentau disgyblion
Hunan/ Adnabod Cymheiriaid	Hunan/ Adnabod Cymheiriaid